

***2024 review of the
boundaries for Senedd
Constituencies
First Consultation
response***

Welsh Liberal
Democrats

Democratiaid
Rhyddfrydol Cymru



Table of Contents

Introduction	3
Criteria for reviewing Parliamentary Constituencies	3
Naming of Senedd Constituencies	3
Summary of Proposals at Constituency Level	4
Constituency specific comments	5
Northern Wales	5
Dwyfor Merionydd and Ynys Mons	5
Wrexham, Montgomeryshire and Glyndwr	5
Alyn, Deeside and Clwyd East	5
Bangor Aberconwy and Clwyd North	5
Summary	5
Southern Wales	5
Ceredigion and Pembrokeshire	5
Carmarthenshire	5
Swansea West and Gower	6
Brecon, Radnor, Neath and Swansea East	6
Aberafan, Maesteg, Rhondda and Ogmore	6
Merthyr, Aberdare and Pontypridd	6
Monmouthshire and Torfaen	6
Blaenau Gwent, Rhymney and Caerphilly	6
Newport and Islwyn	7
Cardiff East and North / Cardiff West, South and Penarth	7
Vale of Glamorgan and Bridgend	7
Conclusions	7

Introduction

This document represents the response from the Welsh Liberal Democrats to the Initial Proposals of the 2026 Review of Senedd constituencies as published by the Democracy and Boundary Commission in September 2024 .

We regret that this review does not have the power to recommend a change to the proposed voting system. While we welcome the move to a single method of election under a proportional system for electing our Senedd Members, we believe the closed list system removes significant power from voters and concentrates it into the hands of party officials. This makes it far less likely for there to be discussion within parties post election for fear of deselection by party committees.

Criteria for reviewing Parliamentary Constituencies

In respect of criteria used, we acknowledge the need for contiguous constituencies and recognise the precedent of using the road network to define this in both the 2021 review for Westminster and the aborted review that preceded it.

We would however highlight that Ynys Mons has a protected boundary for Westminster elections, and were this not the case it would have additional wards added to it on the mainland and would most likely share a boundary with at least two mainland Constituencies. With this in mind whilst, we endorse the proposals for Wales as a whole, north of the Montgomeryshire border we offer the proposition that were the Commission to seek an exemption from this rule for Ynys Mon there is a better fit linking Ynys Mons to Dwyfor Merionnydd as the start point for North Wales.

Next we note the framing of decisions with the aim of minimising the number of constituencies in any one council area and where options exist seeking to reunite two halves of an existing Senedd constituency when it has been split across two new Westminster seats.

We do however need to express our disappointment that these boundaries are combinations of boundaries from another legislature as they perpetuate the over-representation of Ynys Mons, necessitate a disproportionately large constituency in Dwyfor Meirionnydd, Maldwyn a Glyndŵr, and leave council wards straddling two different constituencies.

We accept the lack of sufficient time to deliver such a review ahead of the 2026 elections but would encourage a recommendation that such a review is undertaken before the following set of elections in 2030.

Naming of Senedd Constituencies

The bounds of the Act are such that there is little scope to change boundaries. In this instance we accept the proposed names and defer to the advice of the Welsh Language Commissioner on the syntactically correct nomenclature for each constituency.

Summary of Proposals at Constituency Level

We accept the basic assumption of 16 constituencies as a statutory consideration.

At this point, we accept and support the boundaries as proposed in the 12 constituencies that are south of the Montgomeryshire border. Further, within the terms of the Act and the established definition of contiguity based on the past two Westminster reviews we accept the proposals for the remaining 4 northern constituencies.

However, we would ask the Commissioners to consider the proposition that as a special case was made to give Ynys Mons protected status rather than make it up to quota for the Westminster process then a case could also be made to give it special status for this review in respect of contiguity via road link allowing a linkage to Dwyfor Meirionnydd.

In respect of each of the Commission's proposals, our summary response is as follow

Number	Constituency Name	Proposal
1	Bangor Aberconwy Ynys Môn	Partial Support (alternative)
2	Clwyd	Partial Support (alternative)
3	Alyn, Deeside and Wrexham (Alun, Glannau Dyfrdwy a Wrecsam)	Partial Support (alternative)
4	Dwyfor Meirionnydd, Montgomeryshire and Glyndŵr (Dwyfor Meirionnydd, Maldwyn a Glyndŵr)	Partial Support (alternative)
5	Ceredigion and Pembrokeshire (Ceredigion a Sir Benfro)	Fully support
6	Carmarthenshire (Sir Gaerfyrddin)	Fully support
7	Swansea West and Gower (Gorllewin Abertawe a Gŵyr)	Fully support
8	Brecon, Radnor, Neath and Swansea East (Aberhonddu, Maesyfed, Castell-nedd a Dwyrain Abertawe)	Fully support
9	Aberafan Maesteg, Rhondda and Ogmore (Aberafan Maesteg, Rhondda ac Ogwr)	Fully support
10	Merthyr Tydfil, Aberdare and Pontypridd (Merthyr Tudful, Aberdâr a Phontypridd)	Fully support
11	Blaenau Gwent, Rhymney and Caerphilly (Blaenau Gwent, Rhymni a Chaerffili)	Fully support
12	Monmouthshire and Torfaen (Sir Fynwy a Thorfaen)	Fully support
13	Newport and Islwyn (Casnewydd ac Islwyn)	Fully support
14	Cardiff East and North (Dwyrain a Gogledd Caerdydd)	Fully support
15	Cardiff West, South and Penarth (Gorllewin Caerdydd, De a Phenarth)	Fully support
16	Vale of Glamorgan and Bridgend (Bro Morgannwg a Phen-y-bont)	Fully support

Constituency specific comments

Northern Wales

Within the constraints of the legislation and guidelines, we support the proposals put forward by the Commission. However, if the Commission were prepared to view Ynys Mons as an exception we would suggest the following.

Dwyfor Merionydd and Ynys Mons

The main road link (A5) from Ynys Mons joins the mainland and links up with the A487 within the Bangor Aberconwy constituency. The nearest settlement within this constituency lies about 200 metres North east of this junction. A second settlement is 1.5km to the SW near the Junction with the A4087 in Dwyfor Merionydd at Aberpwll. The A5 link does not pass through any settlement within the Bangor Aberconwy constituency prior to the first roundabout and could be argued to provide a direct link either of the two Westminster seats. By combining with Dwyfor Meirionnydd you would create a constituency entirely within two council areas rather than the three in the current proposal.

Wrexham, Montgomeryshire and Glyndwr

Working anticlockwise Montgomeryshire and Glyndwr has a common boundary with Wrexham and Clwyd East. However, it currently only has wards from the Wrexham Council area. Combining with the Wrexham constituency would see all of Wrexham except for the Llangollen rural ward in one Senedd Seat, an anomaly also present in the Commission proposals.

Alyn, Deeside and Clwyd East

The above proposal leaves Alyn and Deeside landlocked by Clwyd East. It has the additional benefit of bringing the entirety of Flintshire into a single Senedd Constituency.

Bangor Aberconwy and Clwyd North

This is the only remaining combination in the north and would lead to the Conwy Council all falling within a single Senedd Constituency.

Summary

These changes would significantly reduce the geographic area of the largest constituency proposed and would streamline consultation with MS for Wrexham, Flintshire and Conwy Councils.

Southern Wales

Ceredigion and Pembrokeshire

This proposal re-established the linkage in the historic Preseli Pembrokeshire seat and creates a constituency wholly within two council area as such we support it as a consistent application of guidelines and sound in terms of cross-administrative level working.

Carmarthenshire

Likewise, we support the idea that there is a coterminism between local authority and Senedd

constituency.

Swansea West and Gower

The previous version of Swansea West at Westminster level included the communities of Killay and Dunvant. We welcome this reconfiguration and reconnection of historic links. We also recognise that Gower could only link here or with Brecon, Radnor and Cwmtawe for which we believe there are stronger historic links elsewhere.

However, we note that due to the vagaries of boundary changes being out of synch this means the Waterfront ward will be split over two Senedd Constituencies.

Brecon, Radnor, Neath and Swansea East

This is the second constituency which we believe lacks natural cohesion that could have been achieved by a comprehensive review based at a council ward level. We find a complete lack of credibility that a constituency spanning from the bridges over the Tawe by Sainsbury in Swansea all the way up the Swansea Valley then up to Rhayader and Knighton in Northern Radnorshire over 80 miles away and including 3 council areas can in any way allow effective representation of both rural and urban communities.

However, given the guidelines, we agree that this pairing, including within it the historic Neath constituency, is the best fit when you consider that any other combination would have detrimental knock on effects across the rest of South Wales.

Aberafan, Maesteg, Rhondda and Ogmere

The only alternative to this pairing is to link Aberafan to Bridgend. This pairing would then lead to implications further east that would seriously weaken the linkages proposed in the original plans. On that basis, we would support this proposal.

Merthyr, Aberdare and Pontypridd

We support this proposal which recreates the linkage through the Cynon Valley lost in the Westminster review and creates a coherent constituency based around the core linkages of the A470 and the Cynon and Taff Valleys.

Monmouthshire and Torfaen

By combining the two Newport constituencies into one, and recognising the strong community linkages that are restored by recombining the wards of the old Neath constituency you are left with the situation where Monmouthshire and Torfaen only share a common boundary with each other or Blaenau Gwent and Rhymney. This means there is no alternative left than combining them together to ensure stronger linkages elsewhere are not broken.

Blaenau Gwent, Rhymney and Caerphilly

As with so many other seats once strong community ties that were broken by the Westminster review are re-established the options elsewhere become limited. In this case, a consequence of the decision to pull the two halves of the old Neath Constituency back together is the creation of the Monmouthshire and Torfaen pairing outlined above. This then leaves the creation of the seat as proposed by the

Commission as the most viable option. The alternative would lead to the breaking of the Cynon Valley link and increase the number of constituencies that would be interacting with Caerphilly Council. This runs counter to our party approach of recreating historic links and minimising the number of MSs within a council area.

Newport and Islwyn

One of the key principles for the Welsh Liberal Democrats when preparing this submission was to ensure wherever possible the Welsh Cities that are divided at a Westminster level were merged into a common Senedd seat. This proposal meets that aim and ensures the entity of Newport Council has common representation.

Cardiff East and North / Cardiff West, South and Penarth

As the Capital city it makes no logical sense to split Cardiff into more constituencies than necessary so we welcome the decision to create 2 Senedd constituencies from the 4 Westminster constituencies. A case could be advanced to link Penarth with the rest of the Vale of Glamorgan councils area. However, we believe the consequential changes of having 18 MSs representing Cardiff would result in Cardiff having a disproportionate influence on the Senedd. Moreover, the impact on other areas would require Pontypridd linking to Cardiff West and removing the opportunity to reconnect the Cynon Valley. We therefore reject this from our consideration.

The question then is one of pairing. Here we support the Commissions proposition. Cardiff South and Penarth already straddles the Taff and there are a number of connecting roads between the two constituencies. In contrast, the North/West combination is limited to only three river crossings of which only one, at Llandaff, could be considered a residential road. This contrasts with the boundary between East and North, which other than where it follows the railway line tends to follow roads where housing estates in different constituencies radiate off on opposite sides of the dividing line.

Vale of Glamorgan and Bridgend

The only question in respect of this pairing which falls out of the decision on Cardiff is can you create a better combination. The only alternative for the Vale would be a link with the Pontypridd constituency. This common boundary is however limited with the majority of it running along the M4 and the remainder in open country. We therefore conclude this is far outweighed by the benefit of the Commissions plans for Pontypridd which recreates the linkage along the entire Cynon Valley.

Conclusions

The legislative structure for this review is significantly more constrained than the normal constituency review and as such we believe the proposed boundary options are extremely limited. As such the Welsh Liberal Democrats would endorse the proposals as advanced as the best fit within the statutory guidance and our own views of trying to restore historic links whilst minimising the number of MSs representing a council area.

However, we would encourage the Commissioners to consider the unique circumstances that exist in respect of Ynys Mons. This is a protected constituency at Westminster level and the consequence of its smaller electorate and single road link to the mainland is that there is no choice in boundaries in Northern Wales resulting in one geographically enormous constituency. This would have been negated if this was a ward level review. If the Commissioners are minded to explore this option we offer an alternative, outlined above, which minimises the range of constituency area and maximises the number of councils that are within a single Senedd Seat.

***Adolygiad 2024 o'r
ffiniau ar gyfer
Etholaethau'r Senedd
Ymateb i'r
Ymgynghoriad Cyntaf***

Welsh Liberal
Democrats

Democratiaid
Rhyddfrydol Cymru



Tabl Cynnwys

Cyflwyniad	3
Meini prawf ar gyfer adolygu Etholaethau Seneddol	3
Enwi Etholaethau'r Senedd	3
Crynodeb o'r Cynigion ar Lefel Etholaethau	4
Sylwadau ar etholaethau penodol	5
Gogledd Cymru	5
Dwyfor Meirionydd ac Ynys Môn	5
Wrecsam, Maldwyn a Glyndŵr	5
Alun, Glannau Dyfrdwy a Dwyrain Clwyd	5
Bangor Aberconwy a Gogledd Clwyd	5
Crynodeb	5
De Cymru	5
Ceredigion a Sir Benfro	5
Sir Gaerfyrddin	5
Gorllewin Abertawe a Gŵyr	6
Aberhonddu, Maesyfed, Castell-nedd a Dwyrain Abertawe	6
Aberafan, Maesteg, Rhondda ac Ogwr	6
Merthyr, Aberdâr a Phontypridd	6
Sir Fynwy a Thorfaen	6
Blaenau Gwent, Rhymni a Chaerffili	6
Casnewydd ac Islwyn	7
Dwyrain a Gogledd Caerdydd / Gorllewin Caerdydd, De a Phenarth	7
Bro Morgannwg a Phen-y-bont	7
Casgliadau	7

Cyflwyniad

Mae'r ddogfen hon yn cynrychioli ymateb Democratiaid Rhyddfrydol Cymru i Gynigion Cychwynol Adolygiad 2026 o etholaethau'r Senedd fel y'u cyhoeddwyd gan y Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau ym mis Medi 2024.

Mae'n drueni nad oes gan yr adolygiad hwn y pŵer i argymhell newid i'r system bleidleisio arfaethedig. Er ein bod yn croesawu'r newid i un dull o ethol o dan system gyfrannol ar gyfer ethol ein Haelodau o'r Senedd, credwn fod system y rhestr gaeedig yn tynnu pŵer sylweddol oddi ar bleidleiswyr ac yn ei grynhoi yn nwylo swyddogion y pleidiau. Mae hyn yn ei gwneud hi'n llawer llai tebygol y bydd trafodaeth o fewn pleidiau ar ôl etholiad rhag ofn y bydd rhywrai'n cael eu dad-ddewis gan bwyllgorau'r pleidiau.

Meini prawf ar gyfer adolygu Etholaethau Seneddol

O ran y meini prawf a ddefnyddiwyd, rydym yn cydnabod yr angen am etholaethau cyffiniol ac yn cydnabod y cysail o ddefnyddio'r rhwydwaith ffyrdd i ddiffinio hyn yn adolygiad 2021 ar gyfer San Steffan a'r adolygiad blaenorol a ataliwyd.

Byddem fodd bynnag yn tynnu sylw at y ffaith bod gan Ynys Môn ffin warchoddedig ar gyfer etholiadau San Steffan, a phe na bai hyn yn wir, byddai wardiau ychwanegol wedi eu hychwanegu ati ar y tir mawr ac mwy na thebyg y byddai'n rhannu ffin ag o leiaf dwy Etholaeth ar y tir mawr. Gyda hyn mewn golwg, er ein bod yn cymeradwyo'r cynigion ar gyfer Cymru gyfan, i'r gogledd o ffin Maldwyn, rydym yn cynnig, pe bai'r Comisiwn yn ceisio eithriad o'r rheol hon ar gyfer Ynys Môn, fod yna well ffit yn cysylltu Ynys Môn â Dwyfor Meirionydd fel y man cychwyn ar gyfer Gogledd Cymru.

Nesaf, nodwn y modd y fframiwyd penderfyniadau gyda'r nod o leihau nifer yr etholaethau mewn unrhyw un ardal gyngor a lle mae opsiynau'n bodoli i geisio aduno dau hanner etholaeth Senedd bresennol pan fydd wedi'i rhannu ar draws dwy sedd newydd yn San Steffan.

Fodd bynnag, mae angen i ni fynegi ein siom bod y ffiniau hyn yn gyfuniadau o ffiniau o ddeddfwrfa arall gan eu bod yn parhau â gor-gynrychiolaeth Ynys Môn, yn golygu bod angen etholaeth anghymesur o fawr yn Nwyfor Meirionnydd, Maldwyn a Glyndŵr, ac yn gadael wardiau cyngor yn rhychwantu dwy etholaeth wahanol.

Rydym yn derbyn y diffyg amser digonol i gynnal adolygiad o'r fath cyn etholiadau 2026 ond byddem yn annog argymhelliad bod adolygiad o'r fath yn cael ei gynnal cyn y gyfres ganlynol o etholiadau yn 2030.

Enwi Etholaethau'r Senedd

Mae ffiniau'r Ddeddf yn golygu nad oes fawr o le i newid ffiniau. Yn yr achos hwn rydym yn derbyn yr enwau arfaethedig ac yn ymostwng i gyngor Comisiynydd y Gymraeg ar yr enwau cystrawennol gywir ar gyfer pob etholaeth.

Crynodeb o'r Cynigion ar Lefel Etholaethau

Rydym yn derbyn y dybiaeth sylfaenol o 16 etholaeth fel ystyriaeth statudol.

Ar y pwynt hwn, rydym yn derbyn ac yn cefnogi'r ffiniau fel y'u cynigir yn y 12 etholaeth sydd i'r de o ffin Maldwyn. Ymhellach, o fewn telerau'r Ddeddf a'r diffiniad sefydledig o gyffinioldeb ar sail y ddau adolygiad diwethaf o etholaethau San Steffan, rydym yn derbyn y cynigion ar gyfer y 4 etholaeth ogleddol sy'n weddill.

Fodd bynnag, byddem yn gofyn i'r Comisiynwyr ystyried y cynnig, gan fod achos arbennig wedi'i wneud i roi statws gwarchoddedig i Ynys Môn yn hytrach na'i gwneud i gyd-fynd â'r cwota ym mhroses San Steffan, y gellid hefyd wneud achos i roi statws arbennig iddi ar gyfer yr adolygiad hwn mewn perthynas â chyffinioldeb trwy gyswllt ffordd gan ganiatáu cyswllt â Dwyfor Meirionnydd.

Mewn perthynas â phob un o gynigion y Comisiwn, mae ein hymateb cryno fel a ganlyn:

Rhif	Enw'r Etholaeth	Cynnig
1	Bangor Aberconwy Ynys Môn	Cefnogi'n Rhannol (dewis arall)
2	Clwyd	Cefnogi'n Rhannol (dewis arall)
3	Alun, Glannau Dyfrdwy a Wrecsam (Alyn, Deeside and Wrexham)	Cefnogi'n Rhannol (dewis arall)
4	Dwyfor Meirionnydd, Maldwyn a Glyndŵr (Dwyfor Meirionnydd, Montgomeryshire and Glyndŵr)	Cefnogi'n Rhannol (dewis arall)
5	Ceredigion a Sir Benfro (Ceredigion and Pembrokeshire)	Cefnogi'n llawn
6	Sir Gaerfyrddin (Carmarthenshire)	Cefnogi'n llawn
7	Gorllewin Abertawe a Gŵyr (Swansea West and Gower)	Cefnogi'n llawn
8	Aberhonddu, Maesyfed, Castell-nedd a Dwyrain Abertawe (Brecon, Radnor, Neath and Swansea East)	Cefnogi'n llawn
9	Aberafan Maesteg, Rhondda ac Ogwr (Aberafan Maesteg, Rhondda and Ogmore)	Cefnogi'n llawn
10	Merthyr Tudful, Aberdâr a Phontypridd (Merthyr Tydfil, Aberdare and Pontypridd)	Cefnogi'n llawn
11	Blaenau Gwent, Rhymni a Chaerffili (Blaenau Gwent, Rhymney and Caerphilly)	Cefnogi'n llawn
12	Sir Fynwy a Thorfaen (Monmouthshire and Torfaen)	Cefnogi'n llawn
13	Casnewydd ac Islwyn (Newport and Islwyn)	Cefnogi'n llawn
14	Dwyrain a Gogledd Caerdydd (Cardiff East and North)	Cefnogi'n llawn
15	Gorllewin Caerdydd, De a Phenarth (Cardiff West, South and Penarth)	Cefnogi'n llawn
16	Bro Morgannwg a Phen-y-bont (Vale of Glamorgan and Bridgend)	Cefnogi'n llawn

Sylwadau ar etholaethau penodol

Gogledd Cymru

O fewn cyfyngiadau'r ddeddfwriaeth a'r canllawiau, rydym yn cefnogi'r cynigion a gyflwynwyd gan y Comisiwn. Fodd bynnag, pe bai'r Comisiwn yn barod i ystyried Ynys Môn fel eithriad byddem yn awgrymu'r canlynol.

Dwyfor Meirionydd ac Ynys Môn

Mae'r brif ffordd gyswllt (A5) o Ynys Môn yn ymuno â'r tir mawr ac yn cysylltu â'r A487 o fewn etholaeth Bangor Aberconwy. Mae'r anheddiad agosaf yn yr etholaeth hon tua 200 metr i'r gogledd-ddwyrain o'r gyffordd hon. Mae ail anheddiad 1.5km i'r de-orllewin ger y gyffordd â'r A4087 yn Nwyfor Meirionydd yn Aberpwl. Nid yw cyswllt yr A5 yn mynd trwy unrhyw anheddiad o fewn etholaeth Bangor Aberconwy cyn y gylchfan gyntaf a gellid dadlau ei bod yn darparu cyswllt uniongyrchol i'r naill neu'r llall o'r ddwy sedd yn San Steffan. O gyfuno â Dwyfor Meirionnydd byddech yn creu etholaeth yn gyfan gwbl o fewn dwy ardal gyngor yn hytrach na'r tair yn y cynnig presennol.

Wrecsam, Maldwyn a Glyndŵr

Gan weithio'n wrthglocwedd, mae gan Faldwyn a Glyndŵr ffin gyffredin â Wrecsam a Dwyrain Clwyd. Fodd bynnag, dim ond wardiau o ardal Cyngor Wrecsam sydd ganddi ar hyn o bryd. Byddai cyfuno ag etholaeth Wrecsam yn golygu bod Wrecsam gyfan ac eithrio ward wledig Llangollen mewn un sedd yn y Senedd, anghysondeb sydd hefyd yn bresennol yng nghynigion y Comisiwn.

Alun, Glannau Dyfrdwy a Dwyrain Clwyd

Mae'r cynnig uchod yn gadael Alun a Glannau Dyfrdwy yn dirgaeedig gan Dwyrain Clwyd. Mae ganddo'r fantais ychwanegol o ddod â Sir y Fflint i gyd i mewn i un Etholaeth Senedd.

Bangor Aberconwy a Gogledd Clwyd

Dyma'r unig gyfuniad sy'n weddill yn y gogledd a byddai'n arwain at Gyngor Conwy i gyd yn dod o fewn un Etholaeth Senedd.

Crynodeb

Byddai'r newidiadau hyn yn lleihau ardal ddaearyddol yr etholaeth fwyaf arfaethedig yn sylweddol a byddai'n symleiddio'r ymgynghori ag Aelodau o'r Senedd ar gyfer Cynghorau Wrecsam, Sir y Fflint a Chonwy.

De Cymru

Ceredigion a Sir Benfro

Roedd y cynnig hwn yn ailsefydlu'r cysylltiad yn sedd hanesyddol Preseli Penfro ac yn creu etholaeth sy'n gyfan gwbl o fewn dwy ardal gyngor ac felly rydym yn ei gefnogi fel cymhwysiad cyson o'r canllawiau ac sy'n gadarn o ran gweithio ar lefel traws-weinyddol.

Sir Gaerfyrddin

Yn yr un modd, rydym yn cefnogi'r syniad bod cydffiniaeth rhwng yr awdurdod lleol ac etholaeth y

Senedd.

Gorllewin Abertawe a Gŵyr

Roedd fersiwn flaenorol Gorllewin Abertawe ar lefel San Steffan yn cynnwys cymunedau Cilâ a Dyfnant. Rydym yn croesawu'r ad-drefniad hwn a'r ailgysylltu hanesyddol. Rydym hefyd yn cydnabod na allai Gŵyr ond cysylltu fel yma neu ag Aberhonddu, Maesyfed a Chwm Tawe y credwn sydd â chysylltiadau hanesyddol cryfach mewn mannau eraill.

Fodd bynnag, oherwydd bod mympwyon y newidiadau i ffiniau yn anghyson, mae hyn yn golygu y bydd ward y Glannau yn cael ei rhannu dros ddwy Etholaeth y Senedd.

Aberhonddu, Maesyfed, Castell-nedd a Dwyrain Abertawe

Dyma'r ail etholaeth y credwn sydd â diffyg cydlyniant naturiol y gellid bod wedi'i gyflawni drwy adolygiad cynhwysfawr yn seiliedig ar lefel wardiau cyngor. Ein canfyddiad yw bod diffyg hygredd llwyr yn y syniad y gall etholaeth sy'n ymestyn o'r pontydd dros afon Tawe ger Sainsbury yn Abertawe yr holl ffordd i fyny Cwm Tawe ac yna i fyny at Raeadr a Threfyclo yng ngogledd Sir Faesyfed dros 80 milltir i ffwrdd ac sy'n cynnwys tair ardal gyngor, mewn unrhyw fodd ganiatáu cynrychiolaeth effeithiol o gymunedau gwledig a threfol.

Fodd bynnag, o ystyried y canllawiau, rydym yn cytuno mai'r pâr hwn, gan gynnwys etholaeth hanesyddol Castell-nedd o'i fewn, yw'r ffit orau o ystyried y byddai unrhyw gyfuniad arall yn achosi sgil-ffeithiau andwyol ar draws gweddill de Cymru.

Aberafan, Maesteg, Rhondda ac Ogwr

Yr unig ddewis arall yn lle'r pâr hwn yw cysylltu Aberafan â Phen-y-bont ar Ogwr. Byddai'r pâr hwn wedyn yn arwain at oblygiadau ymhellach i'r dwyrain a fyddai'n gwanhau'n ddifrifol y cysylltiadau sy'n cael eu cynnig yn y cynlluniau gwreiddiol. Ar y sail honno, byddem yn cefnogi'r cynnig hwn.

Merthyr, Aberdâr a Phontypridd

Rydym yn cefnogi'r cynnig hwn sy'n ail-greu'r cysylltiad drwy Gwm Cynon a gollwyd yn adolygiad San Steffan ac sy'n creu etholaeth gydlynol yn seiliedig ar gysylltiadau craidd yr A470 a Chymoedd Cynon a Thaf.

Sir Fynwy a Thorfaen

Drwy gyfuno dwy etholaeth Casnewydd yn un, a chydnabod y cysylltiadau cymunedol cryf sy'n cael eu hadfer drwy ailuno wardiau hen etholaeth Castell-nedd rydych yn cael eich gadael â'r sefyllfa lle mai dim ond Sir Fynwy a Thorfaen sy'n rhannu ffin gyffredin â'i gilydd neu Blaenau Gwent a Rhymni. Mae hyn yn golygu nad oes dewis arall ar ôl yn hytrach na'u cyfuno i sicrhau nad yw cysylltiadau cryfach mewn mannau eraill yn cael eu torri.

Blaenau Gwent, Rhymni a Chaerffili

Fel yn achos cymaint o seddi eraill, unwaith y mae cysylltiadau cymunedol cryf a dorrwyd gan adolygiad San Steffan yn cael eu hailsefydlu, mae'r opsiynau mewn mannau eraill yn mynd yn gyfyngedig. Yn yr achos hwn, canlyniad y penderfyniad i dynnu dau hanner hen Etholaeth Castell-nedd yn ôl at ei gilydd yw creu'r pâr rhwng Sir Fynwy a Thorfaen a amlinellwyd uchod. Mae hyn wedyn yn gadael creu'r sedd fel sy'n cael ei gynnig gan y Comisiwn fel yr opsiwn mwyaf ymarferol. Byddai'r dewis arall yn arwain at dorri cyswllt Cwm Cynon ac yn cynyddu nifer yr etholaethau a fyddai'n ymwneud â Chyngor Caerffili. Mae hyn yn groes i ymagwedd ein plaid o ail-greu cysylltiadau hanesyddol a lleihau nifer yr Aelodau Seneddol o fewn ardal gyngor.

Casnewydd ac Islwyn

Un o'r egwyddorion allweddol i Ddemocratiaid Rhyddfrydol Cymru wrth baratoi'r cyflwyniad hwn oedd sicrhau, lle bynnag y bo'n bosibl, bod Dinasoedd Cymru sydd wedi'u rhannu ar lefel San Steffan yn cael eu huno yn yr un sedd yn y Senedd. Mae'r cynnig hwn yn bodloni'r nod hwnnw ac yn sicrhau bod gan endid Cyngor Casnewydd gynrychiolaeth gyffredin.

Dwyrain a Gogledd Caerdydd / Gorllewin Caerdydd, De a Phenarth

Fel y Brifddinas nid yw'n gwneud unrhyw synnwyr rhesymegol i rannu Caerdydd yn fwy o etholaethau nag sydd angen felly rydym yn croesawu'r penderfyniad i greu 2 etholaeth Senedd o'r 4 etholaeth yn San Steffan. Gallai achos gael ei wneud dros gysylltu Penarth â gweddill ardal cynghorau Bro Morgannwg. Fodd bynnag, credwn y byddai'r newidiadau canlyniadol o gael 18 Aelod o'r Senedd yn cynrychioli Caerdydd yn golygu y byddai gan Gaerdydd ddylanwad anghyfrannol ar y Senedd. At hynny, byddai'r effaith ar ardaloedd eraill yn golygu bod angen cysylltu Pontypridd â Gorllewin Caerdydd a cholli'r cyfle i ailgysylltu Cwm Cynon. Felly, rydym yn gwrthod hyn o'n hystyriaeth.

Y cwestiwn wedyn yw paru. Yma rydym yn cefnogi cynnig y Comisiwn. Mae De Caerdydd a Phenarth eisoes yn pontio Afon Taf ac mae nifer o ffyrdd yn cysylltu'r ddwy etholaeth. Mewn cyferbyniad, mae'r cyfuniad Gogledd/Gorllewin wedi'i gyfyngu i ddim ond tri man i groesi'r afon, a dim ond un ohonynt, yn Llandaf, y gellid ei hystyried yn ffordd breswyl. Mae hyn yn cyferbynnu â'r ffin rhwng y Dwyrain a'r Gogledd sydd, heblaw lle mae'n dilyn y rheilffordd, yn tueddu i ddilyn ffyrdd lle mae ystadau tai yn y naill etholaeth a'r llall yn ymledu i bob ochr i'r llinell rhyngddynt.

Bro Morgannwg a Phen-y-bont

Yr unig gwestiwn mewn perthynas â'r pâr hwn sy'n deillio o'r penderfyniad ynghylch Caerdydd yw a allwch chi greu gwell cyfuniad. Yr unig ddewis arall ar gyfer y Fro fyddai cysylltiad ag etholaeth Pontypridd. Fodd bynnag, mae'r ffin gyffredin hon yn gyfyngedig gyda'r mwyafrif ohoni'n rhedeg ar hyd yr M4 a'r gweddill mewn cefn gwlad agored. Felly, deugn i'r casgliad mai trech o lawer na hyn yw manteision cynlluniau'r Comisiwn ar gyfer Pontypridd sy'n ail-greu'r cysylltiad ar hyd Cwm Cynon i gyd.

Casgliadau

Mae'r strwythur deddfwriaethol ar gyfer yr adolygiad hwn yn llawer mwy cyfyngedig na'r adolygiad arferol o etholaethau ac o'r herwydd credwn fod yr opsiynau ar gyfer y ffiniau arfaethedig yn eithriadol o gyfyngedig. O'r herwydd, byddai Democratiaid Rhyddfrydol Cymru yn cymeradwyo'r cynigion a gyflwynwyd fel y ffit orau oddi mewn i'r canllawiau statudol a'n barn ein hunain ar geisio adfer cysylltiadau hanesyddol tra'n lleihau nifer Aelodau o'r Senedd sy'n cynrychioli ardal gyngor.

Fodd bynnag, byddem yn annog y Comisiynwyr i ystyried yr amgylchiadau unigryw sy'n bodoli mewn perthynas ag Ynys Môn. Mae hon yn etholaeth warchoddedig ar lefel San Steffan a chanlyniad y ffaith ei bod yn etholaeth lai a'r ffaith mai un ffordd gyswllt sydd i'r tir mawr yw nad oes dewis yn y ffiniau yng ngogledd Cymru gan arwain at un etholaeth ddaearyddol enfawr. Byddai hyn wedi ei negyddu pe bai hwn yn adolygiad ar lefel wardiau. Os yw'r Comisiynwyr yn bwriadu archwilio'r opsiwn hwn, rydym yn cynnig dewis arall, a amlinellir uchod, sy'n lleihau maint ardal etholaeth ac sy'n cynyddu nifer y cynghorau sydd o fewn un Sedd Senedd.